Cyfarfod Rhanddeiliaid Sector Addysg Uwch Taith - Crynodeb
Dydd Llun, 15 Ionawr 2024
12.30– 13.30am
Cyfarfod a gynhaliwyd dros Teams

Rhestr o'r bobl a fu'n bresennol	
Yn bresennol:	Walter Brooks, Taith (Cadeirydd) Bethan Jones, Prifysgol Abertawe Zoe Smith, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Marian Gray, Prifysgol Aberystwyth Sandeep Singh Sengar, Prifysgol Metropolitan Caerdydd Annika Axelsen, Prifysgol Caerdydd Christopher Gale, Prifysgol Caerdydd Rose Matthews, Prifysgol Caerdydd Maria Fernandes, Prifysgol De Cymru
Cyfieithydd	
Ymddiheuriadau:	
Swyddog Gweithredol Rhaglen Taith (TPE):	Claire Richardson
Ysgrifenyddiaeth gynorthwyol:	Michele Convery

Cofnodion	
Eitem ar yr agenda	**Eitem**
1	**Croeso a chyflwyniadau**
1.1	Croesawyd aelodau i'r cyfarfod ac fe'i dywedwyd er nad oedd hwn yn grŵp penderfynu, byddai'r trafodaethau a'r adborth o'r cyfarfodydd hyn yn llywio unrhyw gynigion a gyflwynwyd i Fwrdd Cyfarwyddwyr ILEP Ltd.
1.2	Dywedwyd wrth aelodau fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi'r broses o gymryd cofnodion a gofynnwyd iddynt ddefnyddio'r llaw rithwir er mwyn cyfrannu at y trafodaethau.
1.3	Hysbyswyd aelodau fod croeso iddynt ofyn cwestiynau yn Gymraeg a byddai aelod o'r tîm yn ateb yn Gymraeg ac y cyfieithu'r ateb i aelodau eraill.
1.4	Atgoffwyd aelodau am doriadau diweddar Llywodraeth Cymru i gyllidebau, a bod hyn yn golygu toriad o 50% i Taith mewn termau real. Mae ymarfer modelu ariannol wedi'i gynnal sy'n amlinellu opsiynau er mwyn rheoli'r toriad hwn a dosraniad cyllid. Cyflwynwyd y modelu gan Fwrdd ILEP i Lywodraeth Cymru i'w ystyried a bellach, rydym yn aros am ymateb gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Bydd hyn yn nodi'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer Llwybr 1 2024, i'w lansio'r mis hwn. Caiff aelodau eu hysbysu cyn gynted ag y caiff ei chadarnhau.
2	**Crynodeb a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol**
2.1	Cytunodd Bwrdd Cyfarwyddwyr ILEP Ltd. y bydd y gofyniad sylfaenol ar gyfer cyfranogwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn 25%. Gall sefydliadau barhau i gyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiectau staff yn unig, ond bydd angen tystiolaeth glir y bydd y prosiect yn dal i gael effaith uniongyrchol ar ddysgwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Bydd hyn yn berthnasol i brosiectau o 2024 ymlaen.
2.2	Mae'r newidiadau arfaethedig i wneud cyfraddau grant yn fwy cyfartal ar draws yr holl sectorau a'r newidiadau i gyllido costau gwirioneddol teithio gwyrdd wedi cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Cyfarwyddwyr ILEP Ltd.
2.2a	Cadarnhawyd bod angen cyflwyno cais ar gyfer anghenion teithio gwyrdd ar wahân.
2.2b	

	Cadarnhawyd hefyd fod teithio gwyrdd yn berthnasol i staff a myfyrwyr.
2.2c	Cadarnhawyd y byddai angen cyflwyno cais ar gyfer gofynion costau ychwanegol o leiaf 30 o ddiwrnodau o flaen llaw er mwyn cymeradwyo'r rhaglen gyfnewid.
2.3	Hysbyswyd aelodau y cymeradwywyd y cynnig i gyfuno terminoleg Addysg AU ac Ymchwil AU gan Fwrdd Cyfarwyddwyr ILEP Ltd. Felly, wrth fynd ymlaen, cyfeirir at y sector fel AU.
2.4	Yn dilyn trafodaeth â'r sector, penderfynwyd y bydd AB a VET yn parhau fel y derminoleg gywir.
3	**Diweddariadau**
3.1	**Bwrdd Cynghori Taith**
3.1a	Yn dilyn proses recriwtio, penodwyd 7 aelod newydd i'r Bwrdd Cynghori ar ei newydd wedd a chaiff y cyfarfod cyntaf ei gynnal ym mis Chwefror. Caiff manylion ychwanegol am yr aelodau newydd eu postio ar y wefan.
3.2	**Llwybr 1 2024**
3.2a	Bydd Llwybr 1 yn ail-agor ar gyfer rownd gyllido 2024 ar 31 Ionawr 2024 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 20 Mawrth.
3.2b	Gofynnodd aelodau a fyddai'n bosib rhyddhau'r cwestiynau naratif cyn yr 31ain.
3.2b(i)	Cadarnhawyd bod canllawiau rhaglenni 2024 gyda'r asiantaeth ddylunio ar hyn o bryd ac y byddant ar gael cyn hir (cyn 31ain Ionawr) a bod y cwestiynau wedi newid i gyfleu'r strategaeth newydd gyda mwy o ffocws ar grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
3.3	**Diweddariadau i bolisi**
3.3a	Bydd sefydliadau cymwys yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer Cymorth Sefydliadol gwerth £25 fesul cyfranogwr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Caiff hyn ei hawlio ar y cam adrodd terfynol ar gyfer pob cyfranogwr yr adroddir amdano o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

3.3b	Bellach, gall staff hawlio am gyllid ychwanegol os byddant yn bodloni'r meini prawf perthnasol. Mae un o'r meini prawf ar gyfer cyfranogwyr o gefndiroedd difreintiedig yn seiliedig ar incwm aelwyd, ac mae'r trothwy ar gyfer hyn bellach wedi'i godi yn unol â chwyddiant.
4	**Pynciau i'w trafod**
4.1	**Gwerthuso effaith prosiectau**
4.1a	Hysbyswyd aelodau bod Swyddog Gweithredol Taith yn gweithio ar werthusiad o'r rhaglen a'r effaith ar gyfranogwyr a gofynnwyd iddynt wneud sylwadau at yr hyn y dylai Taith fod yn ei ofyn i gyfranogwr i'w helpu i fesur effaith prosiect.
4.1b	Awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol i wneud adborth yn rhan ofynnol o broses y prosiect.
4.1c	Gofynnwyd a oedd templed ar gael i gasglu'r canlyniadau neu a oes unrhyw fwriad i ddefnyddio'r rhain mewn rowndiau'r dyfodol.
4.1c(i)	Hysbyswyd aelodau fod Taith yn ystyried hyn a'i bod wedi gweithio ar sawl fersiwn. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i derfynu, caiff ei rannu at ddibenion derbyn adborth.
4.1d	Cafwyd sylwad ei bod hi'n bwysig ystyried y math o raglen gyfnewid mae'r myfyriwr yn dewis ei gwneud.
4.2	**Cyfarfod traws-sector hanner blynyddol**
4.2a	Bydd cyfarfodydd rhanddeiliaid traws-sector ddwywaith y flwyddyn i gynnig cyfle i rannu dysgu a mynd i'r afael â materion traws-sector ar y cyd. Bydd y cyfarfod nesaf i randdeiliaid yn gyfarfod traws-sector gyda ffocws ar grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Gofynnwyd i aelodau rannu unrhyw beth yr hoffent i'r cyfarfodydd hyn ganolbwyntio arno.
4.2a(i)	Cafwyd sylw y byddai rhyw fath o weithgareddau rhwydweithio'n ddefnyddiol.
5	**Eitemau a godwyd gan aelodau'r grŵp rhanddeiliaid sector**
5.1	Ni chodwyd unrhyw eitemau.
6	**Dyddiad y cyfarfod nesaf**
6.1	Cyfarfod nesaf ar 16 Ebrill am ganol dydd (traws-sector)